# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodon cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd drwy fideo gynadledda ddydd Iau, 10 Chwefror 2022 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Rachel Flynn, Pat Jones, Rhys Thomas ac Emrys Wynne (Is-gadeirydd)

**Aelodau Arweiniol y Cabinet** – roedd y Cynghorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth) a Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd) yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen ac roedd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, yn bresennol ar gyfer Eitem 6

**Arsyllwr** – y Cynghorydd Meirick Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaeth Dros-dro, Gwasanaethau Cymorth i Fusnesau (AL), Prif Reolwr (JW), Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd (TW), Rheolwr yr Uned Waith (AC), Cydlynydd Craffu (RE) a'r Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ & SJ [Gweddarlledu])

## PWYNT SYLW

Dywedodd y Cadeirydd, mewn ymateb i gais gan swyddogion, ei bod wedi cytuno i amrywio trefn y busnes ar y rhaglen a bod Eitem 6 - cynnal a chadw lleiniau glas a llwyni ar ymyl priffyrdd, wedi'i dwyn ymlaen i'w hystyried cyn Eitem 5 - Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth 2022.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Ann Davies, Christine Marston, Melvyn Mile a David Williams

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad a oedd yn rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 eu rhoi gerbron.

***PENDERFYNWYD** - y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.*

## 5 CYNNAL A CHADW LLEINIAU GLAS A LLWYNI AR YMYL PRIFFYRDD.

[Cafodd yr eitem hon ei dwyn ymlaen gyda chydsyniad y Cadeirydd]

Cyflwynwyd yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) gan y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau a Phennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol ar bolisi'r Cyngor ar gynnal a chadw lleiniau glas a llwyni a'r defnydd o blaladdwyr. Gwnaeth y Pwyllgor gais am adroddiad ar ôl ystyried y mater yn flaenorol ym mis Chwefror 2021.

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r atodiadau er mwyn galluogi'r Pwyllgor i drafod y polisi a'r ymdriniaeth bresennol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr atodiadau a oedd yn rhoi manylion am y polisi ar gynnal lleiniau gwyrdd ar ymyl priffyrdd ynghyd â'r sefyllfa o ran y defnydd o blaladdwyr i ddibenion rheoli chwyn, ac roedd yn cynnwys Nodyn Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar y defnydd o gynnyrch sy'n cynnwys glyffosad y mae safbwynt y cyngor wedi'i alinio ag ef. Cyfeiriwyd at y newid yn yr hinsawdd ac uchelgeisiau ecolegol y Cyngor ac er nad oes ar hyn o bryd ddewis amgen ymarferol yn lle defnyddio plaladdwyr i gael gwared â chwyn, mae gwaith y parhau er mwyn ceisio dod o hyd i ddulliau eraill o ladd chwyn ac i symud tuag at wireddu'r uchelgeisiau ecolegol hyn.

Yn ystod y drafodaeth cododd yr aelodau nifer o faterion gyda'r Aelod Arweiniol, y Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr yr Uned Waith, a chafwyd yr atebion canlynol:

- er nad yn uniongyrchol gysylltiedig â'r adroddiad, ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth i faterion a godwyd gan y Cynghorwyr Emrys Wynne a Bobby Feeley yn ymwneud â phryderon ynghylch llwybr ar hyd yr A525 rhwng Fferm Cantaba a Lôn Jericho, Rhuthun. Dywedodd nad oedd unrhyw waith arwyddocaol wedi'i wneud pan oedd y lleoliad hwn yn cael ei hystyried fel llwybr teithiol llesol posibl. Fodd bynnag, yn dilyn y penderfyniad na fyddai'n addas ar gyfer teithio llesol, gwnaed cynlluniau i wella'r sefyllfa. Crybwyllodd hefyd yr heriau a wynebir o ran blaenoriaethu'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ymateb yn y ffordd orau bosibl i'r galwadau ar draws y rhwydwaith priffyrdd a'r llwybrau troed perthnasol, a chadarnhaodd y bydd ef a'r swyddogion perthnasol yn barod i drafod y materion hyn ymhellach, naill ai drwy'r Grŵp Aelodau Ardal, y broses graffu neu fforwm arall priodol.
- dywedodd unwaith eto nad oes unrhyw ddewis ymarferol amgen yn lle defnyddio cemegau i drin chwyn ar y rhwydwaith priffyrdd ond bod gwaith yn parhau i geisio dod o hyd i ateb. Mae trafodaethau ar y gweill gyda chontractwr presennol y Cyngor sy'n arbrofi â dulliau amgen posibl ar ran awdurdod lleol yn Lloegr er mwyn dileu'r pwyslais a'r ddibyniaeth ar lyffosad, ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen gyda'r Gwasanaethau Cefn Gwlad i geisio dod o hyd i safleoedd yn y sir lle gellid treialu sylwedd addas amgen posibl, megis asid asetig
- mae triniaethau chwistrellu chwyn wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf o bedair gwaith y blwyddyn i ddwywaith y flwyddyn gyda'r rhan fwyaf o chwistrellu wedi'i gyfyngu i ardaloedd trefol mewn parthau 30mya a chedwir yn llym at

grynodiadau glyffosad o 300ml fesul litr.  Mae'r defnydd o lyffosad wedi'i gymeradwyo ac mae chwistrellu chwyn yn digwydd yn unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau presennol.  Nodwyd bod awdurdodau cyfagos yn defnyddio glyffosad i drin chwyn.

- cafwyd trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru eisoes mewn perthynas â'r defnydd o gemegau a'r effaith ar gyrsiau dŵr ac ni chodwyd unrhyw bryderon gan fod y Cyngor yn cydymffurfio â'r canllawiau sy'n rheoli'r defnydd hwn.
- nodwyd problemau a brofwyd yn y gorffennol mewn rhai ardaloedd trefol lle'r oedd chwyn wedi gordyfu gan gyfeirio'n benodol at Princes Street, y Rhyl a rhoddwyd eglurhad ar yr amserlen a'r rhaglen o waith chwistrellu chwyn gyda hyn yn ddibynnol i raddau helaeth ar amodau'r tywydd ac roedd gwersi wedi'u dysgu o'r tymor blaenorol o ran amseru chwistrellu chwyn i gael yr effaith gorau.
- mewn ymateb i awgrymiadau bod angen mwy o ymgysylltu ag aelodau a'r gymuned er mwyn helpu i adnabod a rhoi sylw i ardaloedd problemus ar y camau cynharaf, dywedodd swyddogion fod yr Uned Waith yn rhoi diweddariadau i aelodau a bod cymaint o rybudd â phosib yn cael ei roi am y rhaglen chwistrellu a thorri gwair yn ogystal â'r gwaith cynnal a chadw cylchol a wneir ar yr A525 a'r A447 - anogwyd aelodau i gysylltu â Rheolwr yr Uned Waith os nad oeddent yn derbyn y wybodaeth berthnasol.
- o ran goruchwyliaeth a sicrhau bod y gwaith yn cyrraedd y safonau angenrheidiol, caiff yr ardaloedd eu harchwilio gan Gydlynwyr y Gwasanaethau Stryd ac mae gwaith agos yn digwydd gyda'r contractwyr torri gwaith a chwistrellu.
- oherwydd bod triniaethau lladd chwyn wedi gostwng o bedair gwaith i ddwywaith y flwyddyn er mwyn lleihau faint o gemegau a ddefnyddir ac i helpu i wireddu uchelgeisiau ecolegol y Cyngor, byddai cynnydd mewn materion cysylltiedig â rheoli chwyn i'w ddisgwyl.
- fel rhywun sy'n cadw gwenyn, dywedodd y Cynghorydd Rhys Thomas ei fod yn fodlon â'r defnydd o lyffosad fel chwynladdwr systemig sydd yn rheoli chwyn yn effeithiol a dywedodd ei fod yn fodlon derbyn yr adroddiad a'i gynnwys ac nad oedd yn teimlo bod angen adroddiad ar hyn bob blwyddyn fel sydd wedi bod yn digwydd oni bai bod newid sylweddol i'r polisi
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Rachel Flynn at faterion yn ymwneud â Chlymog Japan ger y rheilffordd ym Mhrestatyn a gofynnodd i'r swyddogion fynd ar ôl y mater yn uniongyrchol gyda Network Rail fel y sefydliad cyfrifol; awgrymodd y gallai'r Cyngorydd Flynn hefyd o bosibl gysylltu â Network Rail yn uniongyrchol mewn perthynas â hyn.
- Caiff llwyni sy'n eiddo i'r Cyngor eu torri yn unol â thelerau'r polisi a chaiff problemau gyda llwyni sydd mewn perchnogaeth breifat eu cydnabod a chyfrifoldeb y perchnogion tir yw'r rhain - roedd y Cyngor wedi chwarae rhan weithredol mewn mynd ar ôl cwynion a godwyd yn y cyswllt hwn ac wedi cysylltu â pherchnogion tir i ddatrys y materion hyn.
- mae'r manylebau a'r safonau torri wedi'u nodi yn y polisi ac mae disgresiwn i dorri mwy na stribed 1m o led o ymyl y ffordd mewn lleoliadau penodol, yn bennaf am resymau iechyd a diogelwch megis sicrhau gweledeedd i ddefnyddwyr y ffyrdd a cherddwyr, a chynhaliwyd archwiliadau rheolaidd i liniaru unrhyw bryderon.  Mewn llawer o ardaloedd nid oedd yn angenrheidiol torri'n ôl fwy nag 1 metr sydd yn cyd-fynd â'r gwaith ar y safleoedd blodau gwyllt a bioamrywiaeth.

- tynnwyd sylw at drefniadau rheoli presennol y prosiect dolydd blodau gwyllt i ganiatáu twf a datblygiad er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteisio bioamrywiaeth ac i drefnu bod dolydd yn cael eu torri o fewn cyfnod penodol o amser tua diwedd Awst/dechrau Medi - roedd y Cadeirydd yn teimlo y byddai'n fuddiol torri'r ardaloedd hynny'n fwy rheolaidd na phob 3 blynedd er mwyn gwella edrychiad y safleoedd a'u gwneud yn fwy deniadol
- ar hyn o bryd mae 75 o ddolydd blodau gwyllt ar draws y sir a fydd yn cynyddu cyn bo hir i 105 safle, a reolir ar y cyd â'r Gwasanaethau Cefn Gwlad gyda chyfran uchel o leiniau ymyl y ffordd wedi'u cynnwys yn y prosiect. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i brynu offer penodol i dorri a chasglu'r glaswellt ar y safleoedd hyn fel bod blodau gwyllt eraill yn ffynnu - bydd y gwaith hwnnw'n digwydd ddiwedd Awst/dechrau Medi.

Wedi ystyried y wybodaeth a gafwyd yn yr adroddiad, yr atodiadau ac yn ystod y drafodaeth -

***PENDERFYNODD*** y Cyngor gymeradwyo polisïau ac ymdriniaeth presennol y cyngor mewn perthynas â chynnal a chadw lleiniau ymyl y ffordd a llwyni yn ogystal â'r defnydd o blaladdwyr.

## 6 ASESIAD O ANGHENION Y BOBLOGAETH 2020

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a oedd â chyd-gyfrifoldeb dros yr eitem hon. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, Pennaeth Gwasanaeth Dros-dro, Gwasanaeth Cymorth i Fusnesau a'r Prif Reolwr hefyd yn bresennol

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn ceisio barn aelodau ar yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru (AAB) a chefnogaeth i gyhoeddi'r adroddiad. Rhoddodd drosolwg cyffredinol, yn gryno -

- mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu cyd-asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth ranbarthol ar draws Cymru bob 5 mlynedd a defnyddiwyd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB) cyntaf a gyhoeddwyd yn 2017 fel sail i'r ddogfen ddiweddaraf.
- cyhoeddwyd yr AAB gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru fel ymarfer ar y cyd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda'r ddogfen wedi'i rhannu'n wahanol benodau thematig
- Bydd blaenoriaethau Sir Ddinbych wedi'u cynnwys yn y fersiwn terfynol o'r AAB ynghyd â dogfen debyg ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol a BIPBC.
- roedd yr AAB yn anelu at wella dealltwriaeth o'r boblogaeth ar draws Gogledd Cymru a sut y bydd eu hanghenion yn esblygu ac yn newid dros y blynyddoedd i ddod. Mae hwn wedi bod yn ddarn mawr o waith sydd wedi ystyried barn y boblogaeth gydag amrywiaeth eang o ymgynghoriadau wedi digwydd gyda sefydliadau a phartneriaid, a thua 350 o unigolion wedi cymryd rhan mewn arolwg rhanbarthol i hysbysu'r AAB
- tynnodd sylw at y camau nesaf pan fydd yr AAB yn mynd drwy brosesau cymeradwy'r pum awdurdod lleol arall a BIPBC cyn eu cymeradwyo'n ffurfiol

gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth.

Diolchodd y Cynghorydd Feeley i bawb a oedd yn rhan o gynhyrchu'r ddogfen sylweddol hon. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros-dro, Gwasanaeth Cymorth i Fusnesau, y byddai'r negeseuon a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer Sir Ddinbych yn rhan o'r AAB.

Gan ymateb i gwestiynau, adroddodd yr Aelodau Arweiniol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, y Pennaeth Gwasanaeth Dros-dro, Gwasanaeth Cymorth i Fusnesau a'r Prif Reolwr

- ar yr amrywiaeth o ddarpariaeth gymunedol sydd ar gael i blant wireddu eu deilliannau personol, gyda darpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth, a rhoddwyd enghreifftiau darluniadol o'r gwasanaethau wedi'u comisiynu a gwaith gyda'r trydydd sector a phartneriaid i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau yn Sir Ddinbych.
- cafwyd sicrwydd bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli'n lleol ble bynnag bosibl ac y byddai lleoliadau'n cael eu gwneud y tu allan i'r sir dim ond pe bai hynny er lles gorau'r plentyn, er enghraifft gyda gofalwr sy'n berthynas, yn unol â chyfarwyddyd y Llysoedd neu i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nad yw ar gael o fewn y sir
- gallai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y cynnydd mewn oedolion yr adroddwyd bod amheuaeth eu bod mewn perygl posibl ar draws y rhanbarth o 2016/17 i 2018/19, gyda phobl yn cael eu hannog yn rhagweithiol i roi gwybod am eu hamheuon, y newidiadau deddfwriaethol a ddigwyddodd tua'r adeg honno ac ail-lansiad gweithdrefnau diogelu Cymru.
- derbynnir bod darlun cymysg ar draws y rhanbarth o nifer y plant sydd ar y gofrestr diogelu plant ond mae'r niferoedd yn Sir Ddinbych wedi aros yn gyson rhwng 75-90 o blant ar y gofrestr bob blwyddyn, a gellid trafod yn fwy manwl y rhesymau y tu ôl i'r amrywiadau hyn yn y Fforwm Rhianta Corfforaethol, cafwyd sicrwydd nad yw plant yn cael eu cofrestru oni bai bod hynny'n wirioneddol angenrheidiol ac er eu lles pennaf.
- roedd yn ymddangos bod BIPBC wedi darparu data o arolwg cenedlaethol ynghylch canran yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol (tabl 41 a 42) ond cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros dro Cymorth i Fusnesau geisio cadarnhad ynghylch sut y cafwyd y data hwnnw ac adrodd yn ôl.
- rhoddodd ddiweddariad ar ddatblygiad Bwthyn y Ddôl, uned asesu a chymorth therapiwtig breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd ynghyd ag adnoddau staffio a'r costau cysylltiedig.
- ers cyflwyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bu ffocws ar bennu pa ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn orau i oresgyn ynysu cymdeithasol ac unigedd ac mae gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol yn cynnal asesiadau cychwynnol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd; mae llawer o waith yn ymwneud ag annog pobl ifanc i ymgysylltu mewn gweithgareddau cymunedol lleol ac ar hyn o bryd mae digon o ddarpariaeth dydd yn y prif drefi i ddiwallu'r galw presennol - os bydd y galw am ofal dydd yn cynyddu bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu.

- mae’r Cyngor yn cadw cofnodion am blant sy’n cael eu haddysgu gartref ac wedi sefydlu perthnasoedd gyda chanran uchel o’r teuluoedd hynny, ond mae angen gwneud diwygiadau cysylltiedig ag addysg yn y cartref i gefnogi lles a deilliannau addysgol, ac fel cam diogelu sydd wedi’i godi gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol ac Addysg yng Nghymru.
- mae gwaith ar y gweill gyda phartneriaid iechyd i wella diagnosis cynnar dementia a gweithiodd tîm o ymarferwyr gofal cymdeithasol dementia yn benodol gydag unigolion sy’n mynd drwy ddiagnosis dementia neu sydd wedi cael diagnosis o ddementia yn barod, gyda llawer o waith yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o’r mater. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod rhagor o waith i’w wneud yn y cyswllt hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn lansio Is-grŵp Plant i roi mwy o ffocws ar blant a phobl ifanc sydd hefyd wedi’i adlewyrchu yn y cwestiynau y mae’r Pwyllgor wedi’u gofyn am yr adroddiad. Roedd y AAB yn ddogfen fyw a bydd ychwanegiadau’n cael eu gwneud wrth i fwy o wybodaeth ddod i law i adlewyrchu anghenion gofal a chymorth newidiol y boblogaeth er mwyn gweld sut orau i ddiwallu’r anghenion hyn wrth symud ymlaen.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad cynhwysfawr gan amlygu pwysigrwydd cipio a defnyddio’r data hwnnw, i ddibenion hysbysu darpariaeth y dyfodol a sicrhau bod anghenion y boblogaeth yn cael eu diwallu, ond hefyd i helpu i hysbysu cynlluniau a strategaethau lleol a rhanbarthol eraill.

***PENDERFYNWYD*** yn amodol ar y sylwadau a’r safbwyntiau uchod, argymell cyhoeddiad Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (wedi’i ddosbarthu eisoes) yn gofyn i’r aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol:-

- roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi penderfynu yn flaenorol na ddylid cynnal unrhyw gyfarfodydd pwyllgor ar ôl i’r cyfnod cyn-etholiad (18 Mawrth) gychwyn oni bai bod busnes brys y golygu bod yn rhaid cynnal cyfarfod, felly roedd cyfarfod nesaf y cyfarfod ar 7 Ebrill wedi’i ganslo heb unrhyw gyfarfodydd pellach wedi’u trefnu yn ystod tymor y Cyngor presennol.
- roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi clustnodi eitem i’w hystyried gan y Pwyllgor newydd yn eu cyfarfod ym mis Hydref 2022 yn ymwneud â gwaith partneriaeth mewn perthynas ag iechyd meddwl.
- Awgrymodd y Cynghorydd Joan Butterfield Ysbyty Brenhinol Alexandra, y Rhyl fel pwnc ar gyfer craffu gan y Cyngor newydd yng ngoleuni’r diffyg cynnydd gyda’r prosiect a’r angen i gadw’r mater dan adolygiad agos. Cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu at y broses ar gyfer clustnodi eitemau posibl ar gyfer craffu drwy’r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu drwy lenwi a chyflwyno ffurflen gynigion sydd wedi’i hatodi i’r adroddiad hwn.

***PENDERFYNWYD*** yn amodol ar yr uchod, cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor fel y'i gwelir yn Atodiad 1 yr adroddiad i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau newydd ar ôl etholiadau'r awdurdod lleol ym mis Mai 2022 er mwyn iddynt ei symud ymlaen a'i datblygu

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor yn nhymor y Cyngor presennol, diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, ar ran y swyddogion, i Gadeirydd y Pwyllgor am y craffu a'r herio rhagorol a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwnnw. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth a'u gwaith craffu a mynegodd ei dymuniadau gorau i'r rhai a oedd yn sefyll am ail-etholiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am.